

**Gwybodaeth i Rieni a
Gwarcheidwaid**

**Cyngor ar Ryddhau o
Ffisiotherapi/Ailgyfeirio at
Ffisiotherapi ar gyfer Plant â
Chyflyrau Hirdymor**

Gwasanaeth Ffisiotherapi

I'w gyflwyno yn yr apwyntiad cyn rhyddhau

Bydd ffisiotherapydd eich plentyn yn trafod ac yn cynllunio rhyddhau eich plentyn gyda chi cyn y dyddiad y caiff ei ryddhau o'r Gwasanaeth Ffisiotherapi Plant.

Nod y Gwasanaeth Ffisiotherapi Plant yw rhoi cymorth i'ch plentyn mewn da bryd ac mewn modd sy'n effeithiol ac yn effeithlon. Ein bwriad yw cynorthwyo'r plentyn a'r teulu i'w rheoli eu hunain pan nad oes angen triniaeth ffisiotherapi weithredol ar eich plentyn.

Rydym yn gwybod eich bod chi, fel rhiant/gofalwr plentyn â chyflwr hirdymor, wedi datblygu gwybodaeth ac arbenigedd helaeth ynglŷn â rheoli cyflwr eich plentyn a'r hyn mae'n gallu ei wneud. Fel arfer rydych yn gwybod pan fo'i gyflwr corfforol wedi dirywio a phan fo angen cymorth ffisiotherapydd arnoch i'ch helpu i reoli hyn.

Pan fyddwch yn teimlo bod angen cymorth y gwasanaeth ffisiotherapi ar gyfer yr un cyflwr y gwnaeth y gwasanaeth ffisiotherapi asesu eich plentyn yn wreiddiol, gallwch chi naill ai:

- Gysylltu â'ch meddyg teulu neu weithiwr proffesiynol iechyd arall sy'n ymwneud â gofal eich plentyn i gael atgyfeiriad newydd, neu
- Ailgyfeirio eich plentyn eich hun

Os oes gan eich plentyn gyflwr corfforol newydd nad yw'n gysylltiedig â'i anghenion corfforol hirdymor ac rydych yn credu bod angen asesiad ffisiotherapi ar ei gyfer, byddwch yn cael atgyfeiriad newydd gan weithiwr proffesiynol gofal iechyd.

Os hoffech chi atgyfeirio eich plentyn yn ôl i'r Gwasanaeth Ffisiotherapi Plant neu hoffech chi unrhyw gyngor ffisiotherapi ynglŷn â'ch plentyn, dylech ffonio'r rhif isod.

Bydd ffisiotherapydd yn trafod eich cwestiynau neu eich pryderon â chi ac yn eich cynorthwyo i benderfynu ar y camau gweithredu mwyaf priodol a allai gynnwys:

- Rhoi cyngor i chi ar y ffôn
- Eich cyfeirio at weithiwr proffesiynol arall mwy priodol
- Cynnig apwyntiad adolygu i chi gyda'r Gwasanaeth Ffisiotherapi Plant. Bydd y ffisiotherapydd yn blaenoriaethu'r ailgyfeiriad fel mater brys neu arferol, yn ddibynnu ar angen eich plentyn ar yr adeg honno a bydd hyn yn penderfynu pryd caiff dyddiad apwyntiad ei roi

Mae'n bosibl y bydd angen i'r ffisiotherapydd gasglu rhagor o wybodaeth am anghenion eich plentyn gan weithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â gofal eich plentyn i wneud y penderfyniad mwyaf priodol ynglŷn â'r ffordd orau o reoli eich plentyn ar yr adeg hon.

Os oes unrhyw gwestiynau neu bryderon gennych am ryddhau eich plentyn, trafodwch y rhain â'ch ffisiotherapydd ar adeg y rhyddhau.

GWYBODAETH AM RYDDHAU I RIENI/OFALWYR

Enw:	
Cyfeiriad:	
Rhif Ysbyty:	
Dyddiad Rhyddhau:	
Y Ganolfan Blant sy'n Rhyddhau:	
Rhif Ffôn Cyswllt:	
Cyngor ar Ryddhau:	
Gwybodaeth, gwasanaethau neu rifau cyswllt perthnasol eraill	
Enw'r Ffisiotherapydd:	
Llofnod y Ffisiotherapydd:	
Dyddiad:	

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English"